# Buddion Staff



Darperir y wybodaeth yma i roi amlinelliad o'r telerau ac amodau ychwanegol a gynigir i staff Mudiad Meithrin. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'ch telerau ac amodau cyflogaeth. Mae'ch cytundeb cyflogaeth yn cynnwys manylion llawn am y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'ch swydd chi. Mae'r Mudiad yn cadw'r hawl i addasu a newid telerau anghytundebol estynedig petai hinsawdd economaidd neu sefyllfa ariannol yn arwain at yr angen i leihau neu ddychwelyd i delerau ac amodau statudol.
Mae'r buddion i staff rhan amser yn gyffredinol ar sail pro-rata. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, holwch eich Rheolwr Llinell neu aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol.

## GWYLIAU

Mae angen amser i ffwrdd o'r gwaith ar bob un ohonom. Byddwn ni'n eich helpu i gydbwyso eich bywyd cartref a'ch gwaith gyda gwyliau ynghyd â gwyliau banc. *Os arhoswch gyda ni gallwch ennill diwrnodau ychwanegol o wyliau blynyddol yn ddibynnol ar hyd eich gwasanaeth. Mae rhai amrywiadau yn bodoli ar draws ein busnes felly gweler y llawlyfr am fwy o wybodaeth.
*Gwiriwch eich cytundeb cyflogaeth am fanylion gwyliau, gwyliau banc a'ch hawl i weithio'n hyblyg.
Caniateir wyth diwrnod o wyliau cyhoeddus (gwyliau banc) gyda chyflog sef:

| | |
|---|---|
| Dydd Calan | Gŵyl Banc y Gwanwyn |
| Dydd Gwener y Groglith | Llun y Pasg |
| Calan Mai | Gŵyl Banc mis Awst |
| Dydd Nadolig | Gŵyl San Steffan |

Bydd Mudiad Meithrin hefyd yn rhoi diwrnod ychwanegol o wyliau gyda chyflog ar ddydd Gŵyl Dewi.

Bydd gweithleoedd y Mudiad yn cau dros gyfnod y Nadolig ac mae gan y Prif Weithredwr hawl i gynnig diwrnodau achlysurol o wyliau dros y cyfnod yma.

## GWEITHIO'N HYBLYG

*Rydym yn cydnabod y gall arferion gweithio'n hyblyg helpu staff i gyflawni eu swyddi'n effeithiol, tra ar yr un pryd, eu galluogi i gael gwell cydbwysedd rhwng gofynion bywyd a gwaith.
Dyma sut rydym yn cynnig y trefniadau gweithio'n hyblyg:

1. System Fflecsi
2. Gweithio o Adref
3. Hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg

Mae rhai amrywiadau yn bodoli ar draws ein busnes yn ddibynnol ar natur y swydd/gwasanaeth.

## APWYNTIADAU MEDDYGOL / DEINTYDD

Pan na ellir cael apwyntiad meddygol / deintyddol tu allan i oriau gwaith, caniateir hyd at 2 awr gyda chyflog i fynychu apwyntiad.



## WYTHNOS WAITH

Mae'r wythnos waith safonol yn 37.5 awr.

SECONDIADAU

Mae Mudiad Meithrin yn cydnabod bod secondiadau yn gallu bod yn werthfawr i ddatblygiad y sefydliad a'r unigolyn. Mae secondiadau yn gallu cynnig cyfleoedd datblygu gyrfa ac yn fodd o reoli talent. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Mudiad feithrin arbenigedd ymysg y staff. Ystyrir caniatau adleoli aelod o staff dros dro i ran arall o'r sefydliad (secondiad mewnol) neu i sefydliad arall (secondiad allanol). Ystyrir pob cais yn unigol.

Gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.



BUDDION CYFEILLGAR I DEULUOEDD

Mae eich teulu yn bwysig i chi, ac felly maen nhw'n bwysig i ni.
Gyda'r nod o'ch cefnogi drwy holl gamau a chyfrifoldebau bywyd darperir buddion (rhai ohonynt yn fuddion estynedig anghytundebol) ar gyfer cyfnodau mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a rhiant a rennir.
Mae rhai amrywiadau yn bodoli ar draws ein busnes, gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.

SALWCH

Rydym yn gweithredu Cynllun Tâl Salwch Estynedig, sydd uwchlaw'r Tâl Salwch Statudol a gynigir gan y Llywodraeth.
Mae rhai amrywiadau yn bodoli ar draws ein busnes, gweler llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.



ADOLYGIAD PERFFORMIAD AC ARFARNIAD

Bydd cyfarfodydd adolygu perfformiad ffurfiol yn cael eu cynnal bob deuddeg mis a chyfarfod anffurfiol yn y cyfamser. Pwrpas cyfarfodydd fel hyn yw adolygu perfformiad yn erbyn gofynion eu rôl, trafod pethau sydd wedi mynd yn dda, unrhyw feysydd sy'n peri pryder, a sut y gellir rhoi sylw iddynt. Bydd anghenion hyfforddi a sut y gellir eu diwallu orau hefyd yn cael eu trafod, a bydd yr amcanion newydd yn cael eu gosod ar gyfer y cyfnod adolygu fydd i ddod.



AMSER I FFWRDD OHERWYDD DIBYNYDDION

Rydym yn gwybod weithiau y gall bywyd daflu pethau atoch sydd ddim yn gallu cael eu cynllunio ac efallai y bydd angen amser arnoch i ddatrys pethau. Gallwch gymryd nifer penodol o ddiwrnodau 'amser i ffwrdd oherwydd dibynyddion' gyda thâl mewn blwyddyn i ymdrin â'r argyfyngau hyn.
Mae rhai amrywiadau yn bodoli ar draws ein busnes, gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r nifer o ddiwrnodau y caniateir.

ABSENOLDEB TOSTURIOL

Yn ôl disgresiwn eich rheolwr, gallwch gymryd absenoldeb tosturiol yn ystod y flwyddyn i ymdrin â'r argyfyngau hyn.
Mae rhai amrywiadau yn bodoli ar draws ein busnes, gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.

ELUSEN DDIBYNADWY

Dyfernir y marc ansawdd wedi asesiad allanol gan asesydd annibynnol yn erbyn 11 safon o arferion effeithiol sy’n rhan o’r gydnabyddiaeth o fod yn elusen gymeradwy (Trusted Charity), gan gynnwys llywodraethu, arwain a rheoli, rheoli staff a gwirfoddolwyr a rheoli arian, ac fe brofodd Mudiad Meithrin ei fod yn bodloni pob un o’r safonau hyn.
Mae Mudiad Meithrin wedi sicrhau dyfarniad Marc Elusen Ddibynadwy Lefel 2 sy’n cydnabod y gwaith rhagorol mae'n ei wneud fel sefydliad trydydd sector yng Nghymru.



GWISG

Darperir gwisg i rai staff yn ddibynnol ar natur y swydd. Disgwylir i weddill y staff wisgo’n addas ar gyfer anghenion eu swyddi, gan sicrhau delwedd broffesiynol bob amser. Caniateir eithriad i staff ar ddydd Gwener ‘Gwisg Gwener’ (dress down Friday).

DATBLYGU A HYFFORDDI

Mae Mudiad Meithrin yn ymroddedig i ddatblygu a hyfforddi ei staff er mwyn gwella eu sgiliau, ehangu eu gwybodaeth a gwella’r gwasanaeth a gynigir gan y Cwmni. Mae Mudiad Meithrin yn credu mewn darparu hyfforddiant ar gyfer unrhyw aelod o staff sydd ei angen neu a fyddai yn elwa ohono.

PRAWF LLYGAID

Mae modd i ddefnyddwyr unedau sgriniau arddangos gael profion golwg, a thelir amdanynt gan y Mudiad, os gwneir cais am hynny. Gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth

TANYSGRIFIADAU PROFFESIYNOL

Mae Mudiad Meithrin yn gwneud cyfraniad ariannol at danysgrifiadau aelodaeth broffesiynol lle bo'n berthnasol i’r swydd.

CYFNODAU I FFWRDD O’R GWAITH (EGWYLION GYRFA / CYFLOGAETH)

Mae Mudiad Meithrin yn rhoi cyfle i staff wneud cais am gyfnod estynedig di-dâl i ffwrdd o’r gwaith cyn belled â’u bod yn bwriadu dychwelyd yn y dyfodol. Ystyrir pob cais yn unigol.
Gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.

ABSENOLDEB TYWYDD GARW

Rydym yn sylweddoli gall staff wynebu anawsterau yn ystod tywydd garw.
Gyda’r nod o sicrhau fod staff yn ddiogel, caniateir 1 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o dywydd garw (hyd at gyfanswm o 5 diwrnod mewn blwyddyn) gyda thâl os nad oes modd i’r unigolyn drefnu i weithio o gartref.

## CYNLLUN PENSIWN MUDIAD MEITHRIN

Mae pob aelod o staff Mudiad Meithrin yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn Mudiad Meithrin, sydd yn cael ei weithredu gan Royal London. Mae modd i staff gyfrannu 5% neu 6% o'u cyflog gros misol, a bydd y Mudiad yn cyfrannu 3% neu 6% cyfatebol. Mae croeso i staff gyfrannu mwy na 6% ond uchafswm cyfraniad y Mudiad fydd 6%.

Bydd Mudiad Meithrin yn cofrestru staff sy'n cwrdd â'r meini prawf yn awtomatig ar gynllun pensiwn (sef cyllun pensiwn awtomatig 3% Mudiad Meithrin), a fydd hefyd yn cael ei weithredu gan Royal London.

Gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.



## CYDNABYDDIAETH GWASANAETH

Fel cydnabyddiaeth i staff sydd wedi gweithio i Mudiad Meithrin am ddegawd cydnabyddir gwasanaeth gyda thaliad ariannol 'one-off' (anghytundebol) i gydnabod hir wasanaeth a theyrngarwch ac arwydd o ddiolch am y rhan maent wedi ei chwarae yn gwneud gwahaniaeth i blant Cymru. Cydnabyddir ein diolch am ugain mlynedd o wasanaeth i'r Mudiad drwy dystysgrif diolchgarwch.

## IECHYD A LLES

Rydym yn cymryd eich iechyd a'ch lles o ddifrif felly mae gennym ystod eang o adnoddau ar gael i'ch helpu i fod yn hapus, yn iach ac yn llawn cymhelliant, yn y gwaith ac yn y cartref.

## COSTAU TEITHIO

Telir cyfradd o 45c y filltir hyd at 6,000 o filltiroedd y flwyddyn. Os digwydd i'r aelod o staff yrru mwy na 6,000 o filltiroedd y flwyddyn yn sgil ei swydd, bydd y gyfradd a delir yn lleihau i 25c y filltir.



## ADNODDAU MISLIF AM DDIM

Darperir adnoddau mislif am ddim yn nhoiledau ein swyddfeydd.

## AWR LLES

Mae'r Mudiad yn cynnig 'Awr Lles' i'w staff. Bwriad yr Awr Lles yw darparu credyd hyblyg o hyd at awr yr wythnos ar gyfer staff llawn amser.

Gellir defnyddio'r credyd 'lles' hwn pan fyddwch yn ymgymryd â gweithgaredd sy'n cefnogi eich iechyd corfforol neu feddyliol yn uniongyrchol.

Bydd angen i chi drafod eich cynlluniau gyda'ch rheolwr llinell, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith ar ofynion busnes nac anghenion aelodau eraill o'r tîm.

Gweler y canllawiau am fanylion llawn.



## CYNHADLEDD / DIGWYDDIAD STAFF

Mae Mudiad Meithrin yn cynnal cynhadledd neu ddigwyddiad cyfatebol i staff yn achlysurol.



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

## FFORWM STAFF

Mae'r fforwm staff yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr staff i drafod a chasglu barn a phryderon staff mewn perthynas â'r gweithle, yn lleol ac yn genedlaethol trwy eich cynrychiolwyr.

## CWNSELA

Gall fynediad i wasanaeth cwnsela fod o gymorth i gyflogeion am gyfnod byr. Byddwn yn trefnu mynediad i hyd at 6 sesiwn cwnsela cyfrinachol i staff yn ôl yr angen.

## LLUNIAETH

Caniateir i aelodau o staff hawlio costau lluniaeth pan fyddant i ffwrdd o'u lleoliad gwaith arferol am frecwest, cinio a swper. Gweler y llawlyfr cwmni am fwy o wybodaeth.

## GWIRFODDOLI

Rydym yn rhoi amser i chi roi yn ôl a gwneud gwahaniaeth. Gall pob aelod o staff gymryd hyd at un diwrnod i wneud gwaith gwirfoddol gyda thâl y flwyddyn.

## CYFLEUSTERAU CEGIN

Darperir cyfleusterau cegin ym mhob swyddfa / lleoliad gwaith Mudiad Meithrin gan gynnwys te a choffi am ddim i staff.

## GOSTYNGIADAU

Fel unigolyn sydd yn gweithio i fudiad trydydd sector gallwch ymuno â chynllun 'Gostyngiadau Gweithwyr Elusennol'. Mae'r cynllun yn cynnig ystod eang o gytundebau a thalebau arbed arian, o dalebau bwytai, disgownt gwyliau ac arian i ffwrdd o aelodaeth gampfa, ffonau symudol, a chwmnïau cyflenwi trydan, nwy ayyb.

https://www.charityworkerdiscounts.com

## GWYBODAETH BELLACH

Rydym yn gobeithio bod y trosolwg yma o'r buddion a gynigir yn ddefnyddiol i chi. I dderbyn gwybodaeth fwy penodol gallwch:

· Wirio eich cytundeb cyflogaeth
· Edrych ar lawlyfr cwmni, polisïau a gweithdrefnau
· Cysylltu â'ch rheolwr llinell
· Cysylltu â'r Tîm Adnoddau Dynol adnoddaudynol@meithrin.cymru